ARCHDIOCESE
of CARDIFF

ARCHESGOBAETH
CAERDYDD

# DIRECTORATE OF LEARNING AND SKILLS COMMUNITY IMPACT ASSESSMENT

## YMGYNGHORIAD AR Y CYNNIG I AILDDATBLYGU YSGOL UWCHRADD GATHOLIG SANT RICHARD GWYN AR Y SAFLE PRESENNOL O FIS MEDI 2025.



Gellir darparu'r ddogfen hon mewn Braille.
Gellir darparu gwybodaeth mewn ieithoedd cymunedol eraill hefyd os oes angen.
Cysylltwch â ni ar 01446 709828 er mwyn trefnu hyn.

# Cynnwys


| | Tudalennau |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | 3 |
| **Y Cyd-destun Cenedlaethol** | 3 |
| **Cyd-destun Polisi Lleol** | 4 |
| **Heriau Presennol** | 4 - 5 |
| **Proffil Cymunedol** | 5 |
| **Asesiad o Effaith** | 5 - 11 |
| **Crynodeb Sgorio** | 12 |
| **Casgliadau** | 12 |

## 1. Cyflwyniad

Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi ymrwymo i sicrhau bod holl ddisgyblion y Fro yn cael pob cyfle i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl. Er mwyn cyflawni'r uchelgais hwn mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau bod ysgolion yn parhau i fod yn gynaliadwy, yn adlewyrchu anghenion ein cymunedau lleol, a bod ganddynt yr amgylcheddau dysgu gorau posibl.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod ymgynghoriadau yn ystyrlon, yn berthnasol ac yn briodol ar gyfer y cymunedau dan sylw, ac mae gan y Cyngor ddyletswydd gofal i sicrhau bod y cynigion yn glir, yn dryloyw ac yn adlewyrchu safbwyntiau'r rhai yr effeithir arnynt. Dim ond trwy weithio mewn partneriaeth ag ysgolion, llywodraethwyr, rhieni a'r cymunedau ehangach y gallwn wireddu'r weledigaeth hon.

Caiff y cynnig hwn ei ystyried o dan adran 2.3 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). Mae'r adran hon yn cyfeirio at Newidiadau Rheoledig mewn ysgol, sy'n cynnwys cynyddu capasiti'r ysgol gan o leiaf 25%. Bydd ysgol newydd 1050 lle gyda chanolfan adnoddau arbenigol 60 lle yn disodli'r ddarpariaeth bresennol, ar yr un safle ac mae wedi'i chynnwys fel rhan o raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy y cyngor. Cynigir bod Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn yn symud i'r adeilad hwn erbyn Medi 2025 i ddarparu'r capasiti gofynnol. Y Nifer Derbyn Cyhoeddedig (NDC) fyddai 210.

## 2. Y Cyd-destun Cenedlaethol

Mae'r canllawiau statudol allweddol ar gyfer awdurdodau lleol wrth ddatblygu cynigion statudol ar gyfer newidiadau i drefniadaeth ysgolion yn unol ag adran 42 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Wrth ystyried cynigion, rhaid i'r Cyngor ystyried yr effaith ar y gymuned leol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac mewn ardaloedd a ddynodwyd ar gyfer rhaglenni cymunedau'n gyntaf neu raglenni olynol.

## 3. Cyd-destun Polisi Lleol.

Gan adleisio polisi cenedlaethol a amlinellwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'r Cyngor wedi ymrwymo fel rhan o Gynllun Corfforaethol 2016-20 i gyflawni gweledigaeth o – '**Cymunedau Cryf gyda dyfodol disglair'**.

Mae Bro Morgannwg wedi ymrwymo i gyflawni'r amcan 'Bro Uchelgeisiol' gan godi safonau cyflawniad cyffredinol trwy foderneiddio addysg yn y Fro er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn derbyn addysg o'r radd flaenaf.

Rydym yn credu, er mwyn cyflawni hyn, ei fod yn bwysig i ni gefnogi deilliannau dysgu ac addysgu trwy ddarparu adeiladau modern ac addas at y diben sy'n bodloni anghenion addysg fodern. Mae angen i ysgolion allu

darparu'r profiad dysgu gorau posibl er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael y cyfleoedd gorau sydd ar gael iddynt a'u bod yn gallu cyrraedd eu llawn botensial.

## 4. Heriau Presennol

Byddai'r cynnig i gynyddu capasiti yn Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn yn mynd i'r afael â nifer o heriau.

- Sicrhau bod y Cyngor yn gallu darparu ar gyfer y galw yn y dyfodol am addysg ar sail crefydd yn seiliedig ar dueddiadau cyfredol.
- Cynnig amgylcheddau dysgu arloesol a chreadigol fyddai'n gallu addasu i newid, wrth herio a chefnogi plant i gyflawni eu potensial yn llawn.
- Cynnig dull cyson o 11-16 oed a fyddai'n hybu ac yn tanlinellu parhad a chynnydd i'r disgyblion, gan sicrhau cwricwlwm sy'n eang ac yn gytbwys.
- Er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn cael addysg sy'n briodol i'w hanghenion, bydd adeilad newydd yr ysgol yn cynnwys canolfan adnoddau arbenigol. Byddai'n cynnig 60 lle i ddisgyblion a nodwyd. Bydd gan bob disgybl sy'n mynychu'r ganolfan adnoddau arbenigol gynlluniau dysgu unigol.
- Ymestyn a sefydlu perthnasoedd â theuluoedd o'r cyfle cyntaf i gryfhau'r broses bontio o'r cartref i'r ysgol.
- Byddai'r cynnig yn cynyddu gallu'r gymuned i ddefnyddio a rhyngweithio â'r ysgol drwy ddefnyddio cyfleusterau addysgol yr ysgol, gan fodloni anghenion yr ysgol ar yr un pryd.
- Bydd yr adeilad newydd yn bodloni safonau 'Ardderchog' BREEAM (Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu) ac yn cael ei adeiladu i safon 'A' TPY (Tystysgrif Perfformiad Ynni).
- Cynnig model mwy effeithlon a chynaliadwy ar gyfer darparu addysg ar gyfer y 21ain Ganrif sy'n bodloni'r safonau adeiladu cenedlaethol a lleihau costau parhaus ac ôl troed carbon adeiladau addysg.
- Ategu amcanion Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Bro Morgannwg 2017-2020.

## 5. Proffil Cymunedol

Mae Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn wedi'i lleoli ar ochr ddwyreiniol Bro Morgannwg, yng ngogledd-ddwyrain y Barri.

O ganlyniad i'r cynnig, byddai'r ysgol yn trosglwyddo i adeilad ysgol newydd. Rhagwelir y byddai adeilad newydd yr ysgol ar agor o fis Medi 2025.

**Datblygiadau Tai**

Mae datblygiad lleol o'r Glannau wedi'i leoli i'r de-orllewin o ganol tref y Barri a rhwng canol y dref ac Ynys y Barri. Bydd cyfanswm o tua 1,700 o gartrefi yn cael eu hadeiladu erbyn 2024. Rhagwelir y bydd Datblygiad Glannau'r Barri yn creu tua 170 o ddisgyblion meithrin, 473 o ddisgyblion cynradd a 422 o ddisgyblion uwchradd. Mae nifer amcangyfrifedig y disgyblion yn sgil datblygiad yn cael ei gyfrifo drwy ddefnyddio fformiwla sy'n deillio o ddata'r cyfrifiad deiliaid tai ym Mro Morgannwg. Mae cyfanswm o 1559 o unedau wedi'u hadeiladu a'u meddiannu hyd yma gyda phlant wedi'u lleoli mewn ysgolion sy'n gwasanaethu'r ardal.

Ar hyn o bryd mae Datblygiad Glannau'r Barri yn gwasanaethu Ysgolion Cynradd y Stryd Fawr a Holltwn o ran darpariaeth gynradd cyfrwng Saesneg, ac Ysgol Uwchradd Whitmore ac Ysgol Uwchradd Pencoedtre o ran darpariaeth Uwchradd Saesneg. Ysgol Sant Baruc ar gyfer darpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg ac Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Ysgolion cynradd Yr Holl Saint a St Helens ac Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn ar gyfer addysg ffydd. Ni chynigir unrhyw newid i hyn fel rhan o'r ymgynghoriad hwn.

## 6. Asesiad o Effaith

Mae'r rhan hon o'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn asesu'r effaith bosibl y gallai'r cynnig hwn ei chael ar y gymuned leol. Mae'r wybodaeth a ddadansoddwyd yn y broses hon yn cynrychioli cipolwg o'r sefyllfa bresennol. Mae'r asesiad o effaith yn ddogfen sy'n esblygu, a bydd yn parhau i gael ei datblygu drwy gydol y prosiect. Caiff adborth a dderbynnir yn ystod y cyfnod ymgynghori ei ddefnyddio i lywio'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned, a gaiff ei gyflwyno i'r Cabinet fel rhan o'r adroddiad ar yr ymateb i'r ymgynghoriad.

Cafodd wyth mesur allweddol eu nodi:

| Cyf. | Mesur |
|---|---|
| CI1 | Plant sy'n byw yn y dalgylch yn mynychu eu hysgol leol |
| CI2 | Gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgol ar gyfer y gymuned leol, gan gynnwys gweithgareddau allgyrsiol. |
| CI3 | Cyfleusterau cymunedol a ddefnyddir yn rheolaidd gan yr ysgol |
| CI4 | Cyfleusterau cymunedol a ddarperir gan a gweithgareddau a gynhelir ar safle'r ysgol |
| CI5 | Effaith ar fusnesau lleol |

| Cyf. | Mesur |
|---|---|
| CI6 | Effaith ar gyflogaeth leol |
| CI7 | Effaith ar seilwaith lleol |
| CI8 | Trefniadau trafnidiaeth |

Aseswyd yr wyth mesur i nodi unrhyw effeithiau negyddol neu gadarnhaol ar y gymuned leol a'r gymuned ehangach, a rhoddwyd sgôr sy'n amrywio o -3 i +3 ar sail y cydbwysedd o dystiolaeth oedd ar gael.

| Sgôr Mesur | Asesiad Mesur |
|---|---|
| -3 | Dirywiad mawr |
| -2 | Dirywiad cymedrol |
| -1 | Dirywiad bach |
| 0 | Dim newid yn gyffredinol |
| 1 | Gwelliant Bach |
| 2 | Gwelliant Cymedrol |
| 3 | Gwelliant Mawr |

## 6. Effeithiau ar y Gymuned Leol

| Cyf. | Mesur | Sgôr | Effaith y Symud Arfaethedig |
|---|---|---|---|
| CI1 | Plant sy'n byw yn y dalgylch yn mynychu eu hysgol leol | 1 | Dalgylch Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn yw ardal ddaearyddol Bro Morgannwg gyfan. |
| CI2 | Gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgol ar gyfer y gymuned leol, gan gynnwys gweithgareddau allgyrsiol. | 2 | Mae Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn yn cynnig ystod eang o weithgareddau allgyrsiol hefyd. Mae'r rhain yn cynnwys pêl-droed cymunedol 5 bob ochr, saethyddiaeth, hyfforddiant pêl-droed, hyfforddiant pêl-fasged ac mae'r safle'n cael ei ddefnyddio fel canolfan ar gyfer y clwb carafanau.<br><br>Y bwriad yw y byddai'r holl gyfleusterau presennol i blant, rhieni a'r gymuned yn parhau pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen. Byddai'r cynnig yn golygu cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n debygol o arwain at fwy o alw am wasanaethau ysgol, yn ogystal â rhoi'r cyfle i ehangu nifer y gwasanaethau a gynigir.<br><br>Mae'r cynnig yn rhan o Fand B o Raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy y Cyngor. Byddai hyn yn cynnwys creu cyfleusterau newydd o'r radd flaenaf sy'n addas i'r 21ain ganrif. Elfen allweddol o'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yw darparu cyfleusterau cymunedol. |

| Cyf. | Mesur | Sgôr | Effaith y Symud Arfaethedig |
|---|---|---|---|
| CI3 | Cyfleusterau cymunedol a ddefnyddir yn rheolaidd gan yr ysgol | 0 | Nid yw Ysgol Sant Richard Gwyn yn defnyddio cyfleusterau eraill yn y gymuned. |
| CI4 | Cyfleusterau cymunedol a ddarperir gan a gweithgareddau a gynhelir ar safle'r ysgol | 3 | Mae Ysgol Sant Richard Gwyn yn cynnig ystod eang o weithgareddau allgyrsiol hefyd. Mae'r rhain yn cynnwys pêl-droed cymunedol 5 bob ochr, saethyddiaeth, hyfforddiant pêl-droed, hyfforddiant pêl-fasged ac mae'r safle'n cael ei ddefnyddio fel canolfan ar gyfer y clwb carafanau.<br><br>Nod allweddol y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yw sicrhau y caiff cyfleusterau'r ysgol eu datblygu i ddiwallu anghenion y gymuned leol.<br><br>Byddai aelodau'r gymuned leol yn cael eu cynnwys drwy gydol datblygiad y cynlluniau ar gyfer adeilad newydd yr ysgol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n bodloni anghenion y gymuned ac yn gwella'r cyfleusterau sydd ar gael.<br><br>Byddai cynyddu'r capasiti a symud yr ysgol i adeilad newydd yn arwain at gyfleusterau gwell i'r gymuned eu defnyddio. |
| CI5 | Effaith ar fusnesau lleol | 0 | Nid yw'r ysgol yn agos at unrhyw brif fusnesau neu ardaloedd siopa. Mae archfarchnad gerllaw.<br><br>Nid oes gan yr ysgol gysylltiadau agos ag unrhyw fusnesau lleol neu'n eu cefnogi. |

| Cyf. | Mesur | Sgôr | Effaith y Symud Arfaethedig |
|---|---|---|---|
| CI6 | Effaith ar gyflogaeth leol | 3 | Byddai pob aelod o staff a gyflogir yn yr ysgol ar y dyddiad symud yn trosglwyddo'n awtomatig i'r safle newydd heb unrhyw newid i delerau ac amodau eu cyflogaeth.<br><br>Gan y byddai'r ysgol yn cynyddu i 1050 o leoedd, byddai angen staff ychwanegol. Byddai hyn yn cynnwys swyddi addysgu a swyddi i staff cymorth. |
| CI7 | Effaith ar seilwaith lleol | 3 | Mae mynediad i'r safle yn cael ei ddiwygio. Ar hyn o bryd mae dwy fynedfa i'r safle, a'r ddwy yn cynnig lleoedd parcio ar y safle i staff ac ymwelwyr. Bydd y cynnig newydd yn darparu llwybr mynediad ac ymadael yn arwain at ardal gollwng ar gyfer bysus a cheir, lleoedd parcio i staff, lleoedd parcio i ymwelwyr a danfoniadau. Bydd y cynnig yn gwella'r ddarpariaeth bresennol i gerbydau o ran amseroedd gollwng a chasglu, sy'n achosi tagfeydd ar Argae Lane oherwydd y lle cyfyngedig sydd ar gael yn yr ardal barcio bresennol i fysus gael mynediad diogel i'r safle a symud.<br><br>Mae goblygiadau traffig a thrafnidiaeth yn cael eu hystyried yn rhan o'r Asesiad Trafnidiaeth a fyddai'n ofynnol er mwyn cael caniatâd cynllunio i'r gwaith adeiladu pe bai'r cynnig hwn yn cael ei weithredu. |

| Cyf. | Mesur | Sgôr | Effaith y Symud Arfaethedig |
|---|---|---|---|
| CI8 | Trefniadau trafnidiaeth | 0 | Mae dyletswydd ar y Cyngor i ddarparu trafnidiaeth ysgol am ddim i blant o oed ysgol sy'n byw y tu hwnt i bellter cerdded yr ysgol briodol agosaf.[1]<br><br>"*Diffinnir hyn fel mwy na 2 filltir i'r ysgol addas agosaf ar gyfer Disgyblion Cynradd a mwy na 3 milltir ar gyfer Disgyblion Ysgolion Uwchradd. Mesurir pellteroedd drwy'r llwybr cerdded agosaf sydd ar gael.*"[2] |

[1]Polisi ar gyfer Darparu Trafnidiaeth o'r Cartref i'r Ysgol (Diwygiwyd Chwefror 2010)

[2]Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008

## 7. Crynodeb Sgorio

| Cyf. | Cymuned Leol |
|---|---|
| CI1 | 1 |
| CI2 | 2 |
| CI3 | 0 |
| CI4 | 3 |
| CI5 | 0 |
| CI6 | 3 |
| CI7 | 3 |
| CI8 | 0 |
| Sgôr Gyfartalog | 1.5 |

## 8. Casgliadau

Mae'r asesiad effaith yn nodi y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith niwtral ar y gymuned leol mewn 3 o'r 8 mesur a aseswyd. Byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol mewn 5 o'r 8 mesur a aseswyd. Yn gyffredinol, byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol.

Byddai'r cynnig yn galluogi'r ysgol i barhau i fod yn llwyddiannus tra'n cynnig addysg i fwy o ddisgyblion. Byddai'n cynnig amgylcheddau dysgu arloesol a chreadigol fyddai'n gallu addasu i newid, tra'n herio ac yn cefnogi plant i gyflawni eu llawn botensial.

Byddai'r cynnig yn galluogi'r gymuned i barhau i ddefnyddio a rhyngweithio â'r ysgol ac i wneud hynny fwyfwy, drwy ddefnyddio cyfleusterau addysgol yr ysgol, gan ddiwallu anghenion yr ysgol ar yr un pryd.

Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn cynnig ystod o weithgareddau ar gyfer disgyblion y tu allan i oriau arferol yr ysgol. Cynigir y bydd o leiaf pob cyfleuster presennol ar gyfer rhieni disgyblion a'r gymuned yn parhau gyda'r cynnig.

Casgliad yr Asesiad Effaith Cymunedol yw y byddai'r cynnig i gynyddu nifer y lleoedd ysgol yn Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn yn diwallu anghenion y gymuned ehangach yn well, i sicrhau cydbwysedd cynaliadwy rhwng y cyflenwad a'r galw am leoedd.